Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Adroddiad y Prif Weithredwr |
| **Cyfeirnod y papur:** | NRW B 35.16 |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgarwch ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd |

1. **Trawsnewid Cyfoeth Naturiol Cymru – Yr Achos dros Newid:** Ar 20 Ebrill bu i ni gyhoeddi dogfen 'Case for Change' Cyfoeth Naturiol Cymru i'r staff. Dyma'r achos busnes trosfwaol dros y newidiadau a fydd yn cael eu cyflawni drwy'r Adolygiadau o Feysydd Busnes a'r Adolygiad o Uwch-reolwyr. Mae'r dolenni cyswllt wedi'u hanfon at Aelodau'r Bwrdd. Mae'r cyfeiriad yr eir iddo o safbwynt yr Adolygiadau o Feysydd Busnes yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd (sesiwn ddatblygu). Cynhelir ymgynghoriad ynghylch y cynnig sy'n ymwneud â'r Adolygiad o Uwch-reolwyr, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 9 Mai. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod y Bwrdd.

2. **Arolwg Pobl 2016** – Lansiwyd yr arolwg ar 11 Ebrill; bydd y canlyniadau llawn ar gael ddiwedd mis Mai, a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod y Bwrdd (sesiwn ddatblygu).

3. **Llywodraeth Cymru:** Mae paratoadau wedi dechrau ar gyfer gwaith ymgysylltu cychwynnol â Llywodraeth nesaf Cymru. Mae'r ymrwymiadau sydd yn y maniffestos wedi'u dadansoddi, ac mae rhaglen ymgysylltu wrthi'n cael ei datblygu.

4. **Cyfarfodydd:** Rwyf wedi cynnal y cyfarfodydd canlynol ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd:

   Yr Awdurdod Glo – trafod data / tystiolaeth a materion polisi parhaus, gan gynnwys gwneud gwaith adfer ar safleoedd mwyngloddiau metel (gweler agenda'r Bwrdd).

   Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a'r Prif Gwnstabl – euthum i'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd a Gareth O'Shea i drafod y dulliau gweithredu a'r problemau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y de.

   Prifysgolion Cymru – Ar 19 Ebrill llofnodais Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgolion Cymru, a'r Athro Colin Riordan oedd yn llofnodi'r Memorandwm ar ran Prifysgolion Cymru. Mae hynny'n dilyn camau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i greu'r cyswllt cyntaf ym mis Rhagfyr 2014 er mwyn amlinellu meysydd ar gyfer gwaith ymgysylltu. Cadarnhawyd erbyn hyn bod y meysydd hynny fel a ganlyn: darparu tystiolaeth; dysgu a hyfforddi; rhannu cyfleusterau; datblygu busnes ac arloesi. Mae gwaith yn parhau ar blatfform tystiolaeth Sefydliadau Addysg Uwch / Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddylai gael ei ffurfioli yn nes ymlaen ym mis Mai.

   Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – blaenoriaethau busnes sydd o ddiddordeb i'r Awdurdod a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys digwyddiadau mawr.

Cynhadledd Ymarferwyr Arfordirol 27/28 Ebrill – rwy'n siaradwr rhagarweiniol yng nghynhadledd y DU a drefnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru; bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn bresennol.

Penaethiaid Swyddfeydd y Llywodraeth – cyfarfod rheolaidd bob 6 mis.

5. **Ymweliadau Safle** – Rwyf wedi ymweld â'r safleoedd canlynol ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd:

   Clawddnewydd – trafod a gweld gwaith cynaeafu Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghlocaenog.

   Abertawe – gweld y cynnydd a wnaed yn ardal brawf Cyfoeth Naturiol Cymru.

   Dyffryn Gwy – ystyried problemau'n ymwneud â chadwraeth a mynediad.

6. **Cwrs Gloywi Iaith** – Rwyf wedi mynychu sesiwn gyntaf y cwrs i wella fy sgiliau ysgrifennu a siarad Cymraeg.

**Emyr Roberts**
**Mai 2016**